Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Hysbysiad Hwylus

## Codi Tâl am Fagiau Siopa: Cwestiynau ac Atebion

Tachwedd 2011

Ar 1 Hydref 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno gofyniad i godi tâl am y rhan fwyaf o fagiau siopa untro. Nod yr Hysbysiad Hwylus hwn yw ateb y cwestiynau mwyaf cyffredin y gallai Aelodau a'u hetholwyr eu gofyn ynghylch y cynllun codi tâl am fagiau siopa.

## Cyflwyniad

Ar 1 Hydref 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno gofyniad i godi tâl am y rhan fwyaf o fagiau siopa untro. Mae pob bag a ddyluniwyd i fod yn fag untro yn destun tâl, p'un a ydynt wedi'u gwneud o blastig, papur, neu ddeunydd sy'n deillio o blanhigion, fel starts. Mae rhagor o wybodaeth, sydd wedi'i hanelu at siopwyr a manwerthwyr, ar gael ar wefan *Talu am Fagiau Cymru* Llywodraeth Cymru.

## Faint yw'r tâl?

Y tâl gofynnol yw 5c, er y gall manwerthwyr godi mwy os ydynt yn dymuno.

## Pwy sy'n gorfod codi tâl am fagiau?

Nid yw'r rheolau sy'n rheoli'r Tâl yn cynnwys eithriadau ar gyfer unrhyw fath o fusnes. Mae pawb sy'n gwerthu nwyddau wrth fasnachu neu wrth wneud busnes yn gorfod codi'r taliadau, gan gynnwys archebion drwy'r post neu fasnachu ar-lein, p'un a yw'r nwyddau'n cael eu gwerthu yng Nghymru, neu'n cael eu dosbarthu i gyfeiriad yng Nghymru.

## Pryd fydd bagiau'n cael eu heithrio o'r taliadau?

Yn gyffredinol, mae dau ddosbarth sy'n cael eu heithrio o'r Taliadau: **mathau o fagiau** a **mathau o eitemau** y defnyddir y bagiau ar eu cyfer. Mae'r eithriadau hyn wedi'u rhestru yn Atodlen 1 i Reoliadau 2010.

Ymhlith y **mathau o fagiau** nad oes yn rhaid codi tâl amdanynt y mae bagiau y bwriedir eu hailddefnyddio, megis "bagiau am oes" a rhai bagiau plastig neu bapur bach heb handlenni.

Ceir nifer o **fathau o eitemau** lle y defnyddir bagiau i'w cludo hwy **yn unig** nad oes angen codi tâl amdanynt. Mae'r rhain yn cynnwys bwyd heb ei becynnu, llafnau heb eu pecynnu, eitemau meddygol penodol a chreaduriaid dyfrol byw mewn dŵr. Unwaith eto, ceir rhestr lawn yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau.

## Beth yw'r ddeddfwriaeth berthnasol?

Mae tri darn pwysig o ddeddfwriaeth a roddodd y pŵer i Lywodraeth Cymru gyflwyno tâl am fagiau siopa untro:

- *Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008*: Mae'r Ddeddf hon yn rhoi pwerau i awdurdodau cenedlaethol gyflwyno deddfwriaeth i godi tâl am fagiau siopa;
- *Mesur Gwastraff (Cymru) 2010*: Mae'r Mesur hwn yn rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru bennu pen taith yr arian a godir yn sgil y taliadau statudol am fagiau siopa;
- *Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010*: Dyma'r rheoliadau a gyflwynodd y taliadau statudol am fagiau siopa, ac maent yn darparu rhagor o fanylion am weithrediad y cynllun.

## I ble fydd yr arian yn mynd?

Ar hyn o bryd, nid oes **unrhyw ofynion gorfodol** o ran yr hyn y mae'n rhaid i fanwerthwyr ei wneud gydag elw net y taliadau bagiau siopa. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cytundeb gwirfoddol y mae'n gobeithio y bydd manwerthwyr yn ei ddilyn wrth ddefnyddio elw o'r taliadau am fagiau siopa.[1]

Mae'r Llywodraeth yn gobeithio y bydd yr elw net yn cael ei drosglwyddo i "achosion da", gorau oll os ydynt yn achosion amgylcheddol ac yn achosion sydd o fudd i gymunedau lleol. Yn ogystal, y gobaith yw y bydd cyfraniadau o'r cynllun tâl am fagiau siopa yn ychwanegu at y trefniadau sydd gan fanwerthwyr ar waith gydag elusennau ar hyn o bryd, yn hytrach nag yn eu disodli.

## A fydd yn rhaid i fanwerthwyr ddweud wrth unrhyw un i ble mae'r arian yn mynd?

Rhaid i'r holl fanwerthwyr sy'n cyflogi **10 neu fwy o bobl** gadw **cofnod manwl o faint o fagiau siopa y maent yn eu gwerthu a'r hyn y maent yn ei wneud gyda'r arian**. Rhaid i'r cofnodion hyn fod ar gael i'r cyhoedd neu Lywodraeth Cymru ar gais.

Os yw'r manwerthwyr wedi'u cofrestru ar gyfer TAW ac yn cyflenwi dros fil o fagiau siopa untro mewn blwyddyn, rhaid iddynt gyhoeddi'r cofnodion hyn, naill ai ar y rhyngrwyd neu ar ffurf hysbysiadau mewn siopau.

## Beth gall y Llywodraeth ei wneud os nad yw manwerthwyr yn dilyn y cytundeb gwirfoddol?

Mae *Mesur Gwastraff (Cymru) 2010* yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru greu rheoliadau a fyddai'n gosod dyletswyddau ar fanwerthwyr i bennu pen taith yr elw a wneir yn sgil y tâl. Yn benodol, **gallent gyflwyno deddfau i orfodi manwerthwyr i roi'r elw net a wneir yn sgil codi tâl am fagiau siopa i achosion amgylcheddol**. Mae'r Llywodraeth wedi datgan y byddai'r pŵer hwn ond yn cael ei arfer pe na bai'r trefniadau gwirfoddol gyda manwerthwyr yn gweithio'n foddhaol.

---

[1] Llywodraeth Cymru: ***Cytundeb Gwirfoddol: Yr egwyddorion i’w dilyn wrth ddefnyddio’r elw net o’r Tâl am Fagiau Siopa Untro*** [fel ar 18 Hydref 2010]

## Beth mae manwerthwyr yn bwriadu ei wneud gyda'r arian?

Mae nifer o'r manwerthwyr mawr wedi cyhoeddi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud gydag elw net y tâl am fagiau siopa. Mae'r rhain yn cynnwys:

- John Lewis: bydd yr elw net yn mynd i Cadwch Gymru'n Daclus;
- Asda: bydd yr elw net yn mynd i **elusennau lleol a ddewisir gan weithwyr siopau lleol**;
- **Tesco**: bydd yr elw net yn mynd i **RSPB Cymru;**
- **Sainsbury**: bydd 1c o bob bag 5c yn mynd i **elusen leol y flwyddyn y gangen**. Bydd y siop yn darparu bagiau y gellir eu hailddefnyddio, yn hytrach na bagiau untro.
- **Marks and Spencer**: bydd 4c o bob bag 5c yn mynd i elusen amgylcheddol **Groundwork.**

## A fydd Llywodraeth Cymru yn cael unrhyw arian o'r cynllun?

Mae'r cynllun gorfodi yn golygu y **gellir dirwyo** manwerthwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r Rheoliadau . Byddai'r arian hwn (mae'r dirwyon yn amrywio o £100 i £20,000) yn mynd i Gronfa Gyfunol Cymru, sy'n golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. **Ni fydd unrhyw ran o'r 5c o'r tâl gorfodol am fagiau untro yn mynd i Lywodraeth Cymru**.

## A fydd Trysorlys y DU yn cael unrhyw arian o'r cynllun?

Codir **TAW** ar fagiau siopa y codir tâl amdanynt o dan y cynllun.[2] Felly, bydd Trysorlys y DU yn cael arian ar ffurf TAW ar gyfer pob bag siopa y codir tâl amdano gan fusnes sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW yng Nghymru.

## Beth fydd y gost i fanwerthwyr o weithredu'r cynllun tâl am fagiau siopa?

Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif y bydd cyfanswm y gost i fanwerthwyr ledled Cymru tuag £1 filiwn ar gyfer y costau sefydlu cychwynnol, ac y bydd costau gweinyddol blynyddol o £1 filiwn wedi hynny. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, er bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cod ymarfer gwirfoddol sy'n golygu y bydd elw net y cynllun yn mynd at achosion da amgylcheddol, nid oes rhwymedigaeth statudol i fanwerthwyr ddefnyddio'r arian hwn mewn unrhyw ffordd benodol ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, mae'n ofynnol i fanwerthwyr gadw cofnodion sy'n nodi'r hyn y maent yn ei wneud gydag elw'r tâl am fagiau. Mae hyn yn cynnwys ffigur ar gyfer y swm a wariwyd ar "gostau rhesymol": hynny yw, y costau a delir er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd. Nid yw'r gost o brynu bagiau gan gyfanwerthwyr yn "gost resymol", gan nad yw'r Rheoliadau yn ei wneud yn ofynnol i fanwerthwyr ddarparu bagiau.

[2] Cyllid a Thollau EM, ***Briff Cyllid a Thollau 23/11 – TAW: cyflwyno ardoll ar fagiau siopa 'untro' yng Nghymru*** (Saesneg yn unig) [fel ar 7 Hydref 2010]

## Pwy fydd yn gorfodi'r cynllun?

Bydd **swyddogion gorfodi awdurdodau lleol** yn gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau. Fodd bynnag, nid yw'r Rheoliadau yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i fonitro cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau, ond maent yn rhoi'r pŵer iddynt orfodi cydymffurfiaeth lle maent yn barnu ei bod yn angenrheidiol.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi nodi, er bod awdurdodau lleol wedi cael y pwerau i orfodi'r ddeddfwriaeth newydd, nad ydynt wedi cael unrhyw gyllid ychwanegol. O'r herwydd, mae wedi datgan na fydd **gorfodaeth ragweithiol** ar ran yr awdurdodau lleol. Yn hytrach, bydd awdurdodau lleol yn ymateb i gwynion a ddaw i law, ac yn ymchwilio iddynt. Bydd y dull hwn yn cynnwys rhoi cyngor a chymorth i helpu masnachwyr i gydymffurfio â'r gofynion: bydd gorfodaeth yn cael ei hystyried fel yr opsiwn olaf.

## A oes cynlluniau tebyg ar waith ledled y byd?

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i godi tâl statudol am fagiau siopa. Fodd bynnag, mae cynlluniau tebyg, lle y codir tâl am fagiau siopa, neu lle y caiff bagiau siopa eu gwahardd, ar waith mewn gwledydd eraill ledled y byd, megis Iwerddon, Gwlad Belg, Y Swistir, Bangladesh a Tsieina.

Y model Gwyddelig, a arweiniodd at ostyngiad o 90 y cant yn y defnydd o fagiau siopa untro yn ôl pob sôn, yw'r enghraifft y cyfeirir ati amlaf wrth drafod y cynllun yng Nghymru.[3]

Mae Llywodraeth yr Alban wrthi'n ymgynghori ar ffyrdd o leihau'r defnydd o fagiau siopa. Ym mis Awst 2011, nododd Ysgrifennydd Amgylchedd yr Alban y byddai'n ystyried cyflwyno deddfwriaeth pe bai angen.[4]

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y Tâl am Fagiau Siopa, cysylltwch â Robin Wilkinson (Robin.Wilkinson@Wales.gov.uk), y Gwasanaeth Ymchwil.

Gallwch weld rhestr lawn o hysbysiadau hwylus yma.

**Rhif ymholiad: 11/2365 Robin Wilkinson**
**Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd.**

**Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon drwy'r post i'r Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu dros e-bost i Research.Service@cymru.gov.uk**

[3] Llywodraeth yr Alban: *Proposed Plastic Bag Levy - Extended Impact Assessment: Volume 2: Appendices*
[4] Llywodraeth yr Alban: *Tough action on carrier bags, 15 Awst 2011* [fel ar 19 Hydref 2011]